

Cyfarwyddyd i Fyrddau Rheoli Maetholion

Lleihau pwysau ar ddalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) i helpu i gyflenwi tai fforddiadwy: [Cynllun gweithredu](#)

Cam Gweithredu 1.2 - Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd clir ar rôl a swyddogaeth y Bwrdd Rheoli Maetholion (NMB) o ganlyniad i'r adolygiad a gynhaliwyd gan Afonydd Cymru.

Datganiad o Gyfeiriad

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Awdurdodau Lleol perthnasol a Pharciau Cenedlaethol i arwain a galluogi gweithrediad effeithiol o'u priod Fyrddau Rheoli Maetholion neu Bartneriaethau Dalgylch i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau a amlinellir yn y Llythyrau Cynnig Grant. Bydd yr BRM yn gwneud hyn drwy adnabod camau gweithredu i alluogi gwelliannau mewn ansawdd dŵr sydd wedi'u cynllunio i adfer a chadw statws cyflwr ffafriol, tra hefyd yn caniatáu i'r datblygiad barhau o fewn dalgylch yr ACA heb gynyddu'r llwyth ffosfforws (datblygiad niwtral o ran maetholion).

Mae'n ofynnol i'r BRM weithredu o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol i fynd i'r afael â llygredd ffosfforws yn eu dalgylch ACA priodol.

Allbwn allweddol yr BRM yw cynhyrchu Cynllun Rheoli Maetholion (CRhM) gweithredadwy sy'n nodi camau gweithredu, rolau a chyfrifoldebau y cytunwyd arnynt sydd eu hangen i gyflawni'r ddau nod o gyrraedd a chynnal statws cadwraeth ffafriol yr ACA, tra hefyd yn hwyluso datblygiad niwtral o ran maetholion. Dylai'r cynllun nodi mesurau tymor byr (1-5 blynedd), canolig (5-15) a hir (15 mlynedd a thu hwnt) sydd wedi'u tystiolaethu'n drylwyr neu mewn ffurf y mae BRM unigol yn eu ffafrio. Dylai CRhM hefyd osod y sylfaen ar gyfer gwelliannau tymor hwy gyda'r nod o gyflawni a chynnal cydymffurfiaeth ACA. Rhaid i fesurau tymor byr yr CRhM flaenoriaethu mentrau i ddatgloi tai fforddiadwy ar gyflymder o fewn cyfnod cyllido Llywodraeth Cymru sydd wedi'i gytuno iddo ar hyn o bryd (erbyn Ebrill 2025)

Dylai'r CRhM gael tystiolaeth drylwyr i fodloni gofynion cydymffurfio'r Rheoliadau Cynefinoedd a deddfwriaeth amgylcheddol ddatganoledig ac ategu'r Cynllun Gweithredu Afonydd.

Cydnabyddir y bydd stiwardiaeth dŵr cyfrifol yn y dalgylch yn gofyn am gydweithrediad cymunedol ar y ddaear. Felly, mae BRM yn cael eu hannog i ddatblygu partneriaethau cryf, effeithiol a chydlynol.